

Adroddiad ar

Ysgol Bodafon

**Ffordd Bodafon
Llandudno
Conwy
LL30 3BA**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Bodafon

Enw'r darparwr	Ysgol Bodafon
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Iaith y darparwr	Saesneg
Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg	
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru – nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol enwadol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan mae'n ysgol â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol enwadol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	80
Disgyblion o oed ysgol statudol	62
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	12
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%)	8.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%)	*

Adroddiad ar Ysgol Bodafon
Tachwedd 2025

Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	9.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	8.1%
Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2012
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/04/2018
Dyddiad dechrau'r arolygiad	17/11/2025

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Crynodeb

Mae Ysgol Bodafon yr Eglwys yng Nghymru yn gymuned wresog a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu parchu. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd cryf sy'n magu hyder ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r awyrgylch cefnogol hwn yn cyfrannu at ymddygiad cyson gwrtais y disgyblion a'u parodrwydd i ymgysylltu'n llawn ym mywyd yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu.

Mae profiadau dysgu yn ddifyr ac yn defnyddio cyd-destun lleol yr ysgol yn dda. Mae disgyblion yn mwynhau dathlu diwylliant Cymru ac yn defnyddio'r iaith yn frwdfrydig mewn sefyllfaoedd bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a mathemategol cadarn, ac mae disgyblion hŷn yn gallu darllen â dealltwriaeth, ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a datrys problemau rhif mwy cymhleth.

Wrth iddynt fynd yn hŷn, mae disgyblion yn ennill medrau digidol, creadigol a chorfforol cynyddol werthfawr, yn aml trwy weithio gyda'i gilydd ar brosiectau diddorol mewn celf, cerddoriaeth a dawn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caiff grwpiau arweinyddiaeth disgyblion eu gor-gyfarwyddo gan staff.

At ei gilydd, mae'r addysgu'n cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol ac yn hyrwyddo medrau dysgu'n annibynnol disgyblion yn addas. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod lefel yr her yn gweddu i anghenion disgyblion, ac mae adborth athrawon i ddisgyblion yn amrywiol o ran ei effeithiolrwydd. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu priodol, ac mae staff yn rhoi pwyslais cryf a llwyddiannus ar les disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein, yn mwynhau dysgu am ffyrdd iach o fyw, ac yn elwa ar gymorth gofalgarn gan staff. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion yr ysgol, mae cyfraddau absenoldebau parhaus yn rhy uchel.

Mae llywodraethwyr yn ymroddgar a chefnogol, ac mae arweinwyr yn datblygu partneriaethau â sefydliadau allanol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw prosesau'r ysgol ar gyfer hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rheoli adnoddau, yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi'r gwahaniaeth a wna gwaith yr ysgol a'i defnydd o adnoddau i gynnydd disgyblion. Er bod rhieni a gofalgarn yn gwerthfawrogi ymagwedd drws agored a chyfathrebu'r ysgol, mae'r wybodaeth a gânt am gynnydd eu plentyn yn gyfyngedig.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

- A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rheoli adnoddau i sicrhau ffocws cyson ar ddeilliannau disgyblion
- A2 Darparu her gyson ac adborth amserol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud
- A3 Lleihau cyfraddau absenoldebau parhaus

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Mae Ysgol Bodafon yr Eglwys yng Nghymru yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn falch o'u treftadaeth. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd cryf sy'n cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad disgyblion o berthyn. Mae'r ethos gofalgwr hwn yn sail i ymddygiad disgyblion, sy'n gyson gwrtais a pharchus. Mae bron pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae'r addysgu'n adlewyrchu gweledigaeth glir ar gyfer cyflwyno cwricwlwm cyfoethog a chyfoes. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n manteisio'n effeithiol ar gymeriad a chymuned unigryw'r ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ddathlu diwylliant Cymru sy'n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad cynyddol o hunaniaeth Gymreig. Mae defnydd pwrpasol o'r Gymraeg yn magu hyder a mwynhad disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn ymateb i gwestiynau yn Gymraeg yn briodol ac yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa ar gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i archwilio creu marciau mewn amrywiaeth o gyfryngau, ac yn mwynhau gwrando ar storïau difyr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen â mynegiant a dealltwriaeth, ac mae disgyblion mwy abl yn rhesymu ac yn casglu ystyr o destunau cymhleth. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, yn aml gan ddefnyddio geirfa gyfoethog ac anturus.

Mae ymagwedd gyson yr ysgol at addysgu mathemateg yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau cadarn. Maent yn meithrin dealltwriaeth gadarn o rif a sut i wneud cyfrifiadau cywir yn y pen ac yn ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn adnabod rhifau a siapiau yn hyderus, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu medrau rhesymu effeithiol wrth ddatrys heriau mathemategol mwy cymhleth.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol priodol sy'n cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o raglenni i atgyfnerthu ac ymestyn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio ar brosiectau cerddoriaeth, dawnys a chelf gwerthfawr, yn cyfrannu syniadau ac yn adeiladu'n bwrpasol ar waith disgyblion eraill. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol â hyder, rheolaeth a chydyniad cynyddol.

At ei gilydd, mae'r addysgu'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd addas yn eu dysgu. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth ac yn defnyddio staff cymorth yn bwrpasol. Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae anghysondebau mewn addysgu ac asesu. Mewn ychydig o achosion, nid yw gweithgareddau cynlluniedig yn darparu heriau na chyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu dyfalbarhad a gwydnwch. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd cryfach. Er bod athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd, nid yw'r adborth bob amser yn cael ei roi ar unwaith i fynd i'r afael â gwallau a chamdybiaethau. O ganlyniad, mae disgyblion yn ailadrodd camgymeriadau o bryd i'w gilydd, ac nid ydynt yn cywiro'u gwaith yn brydlon.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu teimladau â staff trwy gydol y dydd, a chaiff y perthnasoedd cryf hyn effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn dangos dealltwriaeth dda o gadw'n ddiogel ar-lein, yn cynnwys ymwybyddiaeth o hacio, seiberfwlio a diogelu cyfrineiriau. Maent yn mwynhau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, ac yn deall pwysigrwydd maeth ac ymarfer corff. Mae'r ysgol yn cynnig cyfle i ddisgyblion o Flynyddoedd 2 i 6 ymuno â thri grŵp arweinyddiaeth disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r grwpiau hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau ar waith yr ysgol, fel hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan y Criw Cymraeg yn ystod amseroedd chwarae, ond yn gyffredinol, caiff y grwpiau eu gor-gyfarwyddo gan staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol o ran ymgysylltu â'r awdurdod lleol a theuluoedd pan fydd presenoldeb yn peri pryder. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae cyfraddau absenoldebau parhaus yn parhau i fod yn rhy uchel.

Mae arweinwyr a staff wedi sefydlu diwylliant diogelu priodol. Mae llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac wedi cryfhau eu rôl yn monitro gweithdrefnau diogelu. Mae darpariaeth yr ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY yn effeithiol. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n brydlon a'u cefnogi'n effeithiol. Mae cysylltiadau cynhyrchiol ag asiantaethau allanol yn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion targedig, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu cynnydd.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o bartneriaethau allanol, fel ymarferwyr creadigol, yr eglwys a'r cartref gofal lleol, sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn cryfhau eu hymdeimlad o ddinasyddiaeth. Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cryf ac archwilio'u credoau ysbrydol, moesol a diwylliannol. Mae disgyblion yn dysgu am gydraddoldeb, hawliau a thegwch, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o barchu pawb mewn cymdeithas. Mae rhieni a gofalwyr yn

gwerthfawrogi polisi drws agored a chyfathrebu rheolaidd yr ysgol, er bod y wybodaeth a gânt am gynnydd eu plentyn yn gyfyngedig.

Mae llywodraethwyr yn ymroddgar ac wedi chwarae rôl adeiladol mewn cynorthwyo arweinwyr i reoli heriau ariannol. Maent yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau statudol ynghylch bwyta ac yfed yn iach, a'u rôl mewn dwyn yr ysgol i gyfrif wrth ystyried blaenoriaethau cenedlaethol eraill fel darpariaeth Gymraeg. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu rôl mewn gwerthuso tystiolaeth uniongyrchol i ennill dealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol. Mae arweinwyr wedi bod yn rhagweithiol ac yn greadigol o ran defnyddio cyllid grant i ddatblygu darpariaeth awyr agored, gan eu galluogi i sefydlu ardal werthfawr gyda gardd a phwll. Fodd bynnag, ni chaiff cyllid y grant datblygu disgyblion ei werthuso'n ddigon cadarn i bennu ei effaith ar leihau rhwystrau rhag dysgu ar gyfer disgyblion sy'n profi tlodi.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ychydig o brosesau addas ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, sy'n ystyried blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu'r Gymraeg a darpariaeth ar gyfer ADY. Fodd bynnag, nid yw prosesau presennol yn sicrhau bod anghysondebau mewn addysgu a dysgu yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw yn ddigon cyflym. Yn ychwanegol, nid yw'r trefniadau i ddosbarthu cyfrifoldebau arwain a chyfleu gwybodaeth yn fewnol bob amser yn effeithiol.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau ar waith yr ysgol, yn enwedig mentora athrawon newydd a gweithredu dull sy'n ystyriol o drawma i gynorthwyo disgyblion a nodwyd. Mae'r mentrau hyn wedi meithrin capasiti arweinyddiaeth ehangach ac wedi gwella gallu'r ysgol i reoli newid yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff wedi cael dysgu proffesiynol effeithiol sy'n cyd-fynd ag agweddau ar addysgu sydd angen eu gwella fwyaf.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i fonitro cyllid yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwerthuso effeithiolrwydd defnydd yr ysgol o'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalmwr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalmwr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrandio arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. '*y rhan fwyaf o ddisgyblion...*' neu '*ychydig iawn o ddisgyblion...*'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026